5.159

EMYN AT HEDDYW.

"A dail y pren oedd i iachâu y cenhedloedd" (Dat. xxii. 2).

Ddinas wén Caersalem Newydd—
Ddinas hedd rhyfelgar fyd—
Tua'r anial maith, annedwydd,
Lledu 'rwyt dy byrth o hyd ;
Gyda'r Oen, dan Bren y Bywyd,
Wele i'r byd dy afon bur,—
I'r cenhedloedd nerth ac iechyd :
Dail y pren iachâ bob cur.

Ddinas nefol—unig gartref
Dyn a chenedl o bob iaith—
Ddaear newydd ! rho dy dangnef
I drueiniaid caled waith ;
Cysgod aden nos nid oeda
Yn dy wybren lâs â'i dydd :
Duw Fi Hun i ti oleua ;
Melltith byth o'th fewn ni bydd.

Bererinion heb oleuni,—
Gaethion pechod Babel fawr,—
Wywedigion trais a chyni,—
Wele noddfa,—wele wawr !
Heibio'r aeth y pethau cyntaf :
Wele'r newydd bethau mwy !
Dowch, genhedloedd, dan eich anaf :
Dail y pren iachâ bob clwy'.

Ifano.

x205 244342